**DEDDF SAFLEOEDD CARAFANNAU A RHEOLI DATBLYGU 1960**

**ADRAN 5**

**SAFONAU MODEL 1989 - SAFLEOEDD CARAFANNAU GWYLIAU**

I. Y mae Adran 5(6) o'r Ddeddf yn darparu y caiff y Gweinidog, o bryd i'w gilydd, bennu Safonau Model mewn perthynas â gweddlun, a darpariaeth cyfleusterau, gwasanaethau ac offer ar gyfer safleoedd carafannau neu fathau penodol o safleoedd carafannau; ac, wrth benderfynu pa fodau (os o gwbl) i'w cysylltu â thrwydded safle rhaid i'r awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth unrhyw safonau a bennir ganddo.

Y mae Adran 7(1) yn darparu y caiff llys ynadon newid neu ddiddymu amod mewn apêl yn erbyn unrhyw amod ar drwydded safle, os yn fodlon (gan gymryd i ystyriaeth ymysg pethau eraill unrhyw safonau a nodir gan y Gweinidog dan Adran 5(6) fod amod yn afresymol o feichus.

Y mae Adran 24, sy'n awdurdodi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd carafanau, yn darparu, yn isadran (2) fod rhaid i'r awdurdod lleol, wrth ymarfer ei bwerau dan yr adran, gymryd i ystyriaeth unrhyw safonau a allasai'r Gweinidog fod wedi eu pennu dan Adran 5(6) o'r Ddeddf.

II. Yn sgil ei bwerau dan Adran 5(6) o'r Ddeddf mae'r Gweinidog drwy hyn yn pennu'r safonau canlynol. Safonau Model ydynt; cynrychiolant y safonau a ddisgwylir yn arferol, fel mater o arferiad da, ar safleoedd a ddefnyddir yn rheolaidd gan garafannau preswyl neu wyliau.

Ni fwriedir iddynt gael eu harfer mewn perthynas â mathau eraill o safleoedd carafanau.

Dylid eu harfer gyda golwg ar amgylchiadau arbennig pob achos, gan gynnwys natur ffisegol y safle, unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau sydd eisoes o fewn cyrraedd hwylus i'r safle ac amgylchiadau lleol eraill.

## 1.0 FFINIAU'R SAFLE

1.1 Dylai ffiniau'r safle gael eu marcio'n glir, er enghraifft â ffens neu wrychoedd.

1.2 Yn ychwanegol, dylai perchennog y safle roi cynllun ohoni i'r awdurdod lleol.

1.3 Argymhellir bod man 3 medr o led yn cael ei gadw'n glir o fewn y ffiniau.

## 2.0 DWYSEDD A LLE RHWNG CARAFANAU

2.1 Yn ddarostyngedig i'r amrywiadau canlynol, dylai'r pellter lleiaf rhwng carafanau wedi eu gwneud o alwminiwm neu ddefnyddiau eraill sydd â phriodoleddau tebyg o safbwynt adweithio i dân fod yn ddim llai ân 5 medr rhwng unedau, 3.5 medr yn y corneli (gweler cynllun enghreifftiol Atodiad 1).

2.2 I rai o bren haenog neu ddeunydd tebyg ni ddylai fod yn llai na 6 medr.

2.3 Lle bo carafanau gwyliau yn gymysgedd o alwminiwm a phren haenog, dylai'r pellter fod yn 6 medr a lle bo cymysgedd o gartrefi preswyl parhaol a charafannau gwyliau dylai'r pellter eto fod yn 6 medr.

2.4 Y pwynt mesur ar gyfer cynteddau ac adlenni a.y.b. yn baneli allanol y garafán.

2.5 Gall cynteddau wthio allan 1m i'r 5 medr a dylent fod o'r math agored.

2.6 Lle defnyddir adlen, dylai'r pellter rhwng unrhyw ran o'r adlen a charafán gysylltiol fod yn ddim llai na 3 medr. Ni ddylent fod o'r math lle y neilltuir lle cysgu ynddynt ac ni ddylent wynebu ei gilydd na chyffwrdd â'i gilydd.

2.7 Gall bargod, pibell draen a ffenestr grom ymestyn i'r cyfwng 5 medr os yw'r pellter rhwng pennau eithaf y 2 uned gyfagos yn ddim llai na 4.5 medr.

2.8 Lle ceir rampiau ar gyfer yr anabl, feranda a grisiau yn ymestyn o'r uned, dylid cael 3.5m yn glir rhyngddynt (4.5m os ceir cymysgedd o garafannau) ac ni ddylai'r eitemau wynebu ei gilydd mewn unrhyw gyfwng.

2.9 Os caewyd amdanynt efallai y dylid eu hystyried fel rhan o'r uned ac, felly, ni ddylid eu gwthio i'r cyfwng 5m (neu 6m).

2.10 Dylid caniatáu garej, sied neu le storio gorchuddiedig rhwng unedau ond yn unig os yw'r gwneuthuriad yn anhylosg (gan gynnwys to anhylosg) a bod digon o le o gwmpas pob uned i ddianc tang tân.

2.11 Ni ddylai ffenestri adeiladau o'r fath wynebu'r uned o boptu iddynt.

2.12 Ni ddylid caniatáu cysgodfannau na rhodfeydd â tho iddynt o fewn 5 neu 6 medr ar unrhyw amgylchiad.

2.13 Ar gyfer ceir a chychod rhwng unedau, gweler rhif 27.

## 3.0 DWYSEDD

3.1 Dylai'r dwysedd fod yn gyson â safonau diogelwch ac anghenion iechyd a mwynderau.

3.2 Ni ddylai'r dwysedd fod yn rhagor na 60 carafán yr hectar, gan gyfrif hynny ar sail y lle y gellirei ddefnyddio gan garafannau yn hytrach na chyfanswm arwynebedd a safle (h.y. gan hepgor llynnoedd, ffyrdd, gwasanaethau cyhoeddus a lleoedd anaddas eraill i osod carafán).

## 4. FFYRDD, MYNEDFEYDD A LLWYBRAU

4.1 Dylid dylunio ffyrdd a llwybrau i ddarparu mynediad digonol ar gyfer cyfarpar tân.
(Mae cyfarwyddyd manwl ar gylchoedd troi a.y.b. ar gael gan yr awdurdodau tân).

4.2 Dylid darparu ffordd o ddefnydd addas fel na fo'r un arhosfan carafan yn fwy na 50 medr o unrhyw ffordd.

4.3 Lle bo'r fynedfa i'r garafán ar draws tir a allasai fod yn anodd neu beryglus i'w groesi mewn tywydd gwlyb, dylai pob arhosfan gael ei chysylltu i lôn gerbyd â llwybr o wyneb caled.

4.4 Ni ddylai ffyrdd fod yn llai na 3.7 medr o led, neu 3 medr o led os ydynt yn ffurfio system draffig un ffordd wedi ei farcio'n glir.

4.5 Dylai mynedfeydd fod o leiaf 3.1 medr o led gydag isafswm o 3.7 medr clir o uchder.

4.6 Dylai llwybrau fod yn ddim llai na 0.75 medr o led.

4.7 Ni ddylai cebl uwchben ffordd fod yn is na 4.5 medr uwchben y ddaear.

4.8 Dylai'r ffyrdd fod wedi eu goleuo'n addas gan gymryd i ystyriaeth anghenion a nodweddion y safle.

4.9 Dylid sicrhau fod llwybrau ar gyfer cerbydau argyfwng yn glir bob amser.

**5.0 AROSFANNAU CALED**

5.1 Lle bo'n bosibl, dylai pob carafan sefyll ar arhosfan caled o ddeunydd addas a ddylai ymestyn dros yr holl arwynebedd a gymer y garafan a osodir arno a dylai ymestyn allan ddigon o fynedfa'r garafan i alluogi'r preswylwyr i fynd a dod yn ddiogel.

5.2 Gellir hepgor arosfannau caled os symudir y carafanau yn ystod y gaeaf, neu os ydynt wed eu lleoli ar dir sydd yn gadarn ac yn ddiogel mewn tywydd garw.

**6.0 OFFER YMLADD TAN**

**6.1 Llecynnau Cyfarpar Tân**

6.2 Dylai'r rhain gael eu sefydlu

a. fel na fo unrhyw garafan neu adeilad ar y safle ymhellach na 30 medr oddi wrth lecyn cyfarpar tân.
b. Dylid eu gosod mewn fframwaith â all wrthsefyll unrhyw dywydd,
c. sydd o fewn cyrraedd hwylus ac
d. sydd wedi ei ddynodi'n amlwg fel "LLECYN CYFARPAR TAN", yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Arwyddion a Arwyddai Iechyd a Diogelwch 1996 neu BS 5499.

**7.0 Cyfarpar Ymladd Tân**

7.1 Lle y darperir pibellau dwr ar stand a lle bod cyflenwad dwr o ddigon o bwysedd i chwistrellu dŵr o tua 5 medr o geg y bibell, dylid lleoli'r pibellau dŵr hynny ar bob llecyn tân.

7.2 Dylid hefyd gael rîl yn cydymffurfio â Safon Prydain 5306 Rhan 1, gyda phibell ddwr o ddim llai na 30 medr o hyd, y gellir ei chysylltu â thap dwr (buasai un sgriwio yn well) a chyflenwad dwr o ddigon o bwysedd a chwistrell a reolir â llaw yn un pen iddi.

7.3 Dylid gosod y pibellau mewn bocs coch wedi ei ddynodi â "RÎL PIBELL DDWR", yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Arwyddion a Arwyddai Iechyd a Diogelwch 1996 neu BS 5499.

7.4 Lle nad oes pibenni dwr a stand na chyflenwad dwr o wasgedd digonol ar gael, dylid gosod pibenni dwr rhag tân o fewn 100 medr i bob arhosfan carafan.

7.5 Dylai'r pibenni dwr gydymffurfio â Safon Prydain 750.

7.6 Ni ddylid rhwystro mynedfa at y pibenni dwr a'r cyflenwadau dwr eraill.

7.7 Lle nad oes pibenni dwr a stand na chyflenwad dwr o wasgedd digonol ar gael, dylid gosod pibenni dwr rhag tân un ai ddiffoddyddion dwr (2 x 9 litr) neu danc dwr o faint 500 litr gyda chaead â cholfachau, 2 bwced ac 1 pwmp dwr neu bwmp bwced.

**8.0 Rhybudd Tân**

8.1 Dylid darparu dull i rybuddio rhag tân ymhob llecyn cyfarpar tân.

8.2 Gall hyn fod trwy gyfrwng larwm llaw e.e.

a. triongl metel a thrawr,
b. cloch neu
c. seiren law.

8.3 Am system addas dylid ymgynghori â'r awdurdod tân.

**9.0 Gofalaeth**

9.1 Dylai person cymwys osod, profi a sicrhau fod yr holl gyfarpar ymladd tân yn barod i'w ddefnyddio ac ar gael i'w archwilio gan neu dros yr awdurdod trwyddedu.

9.2 Dylid cadw llyfr log i gofnodi pob prawf neu weithrediad.

9.3 Dylid diogelu'n briodol bob offer sy'n agored i ddifrod gan rew.

**10.0 Arwyddion Tân**

10.1 Ymhob llecyn cyfarpar tân dylid arddangos rhybudd pa fodd i weithredu pe ceid tân ynghyd â lleoliad y ffôn agosaf.
Dylai'r rhybudd gynnwys y manylion isod:-

**"Os canfyddwch dân**

i. Sicrhewch fod pawb yn ymadael â'r garafan neu'r adeilad sydd ar dân
ii. Canwch y larwm
iii. Galwch ar y Frigâd Dân (**mae'r ffôn agosaf yn …………………………...)**
iv. Diffoddwch y tân gan ddefnyddio'r offer tân a ddarparwyd, os yw'n ddiogel i wneud hynny.

10.2 Mae o fudd i bawb sy'n aros ar y safle hwn i fod yn gyfarwydd â'r arfer uchod a sut i ddefnyddio'r larwm a'r cyfarpar tân".

**11.0 Peryglon Tân**

11.1 Dylid torri glaswellt a thyfiant yn fynych lle bo angen rhag iddo fod yn gyfrwng i dân ledu i garafannau, adeiladau a sefydliadau ar y safle.

11.2 Dylid symud ymaith unrhyw doriadau o'r fath o gyrraedd y carafanau.

11.3 Di ddylid defnyddio'r cyfwng o dan y carafanau neu rhyngddynt ar gyfer storio defnyddiau hylosg.

**12.0 Ffôn**

12.1 Dylid sicrhau fod ffôn y gellid cyrraedd ati ar frys i gysylltu â'r gwasanaethau argyfwng.

12.2 Dylai rhybudd wrth y ffôn gynnwys cyfeiriad y safle.

## 13.0 STORIO NWY HYLIF PETROLIWM (NHP)

13.1 Dylai'r trefniadau ar gyfer cadw nwy hylif petroliwm (NHP) gydymffurfio â Llyfryn Cyfarwyddyd HSG 34 "Cadw NHP mewn Man Sefydlog" neu le y cyflenwir NHP o silindrau, rhaid cydymffurfio â Nodyn Cyfarwyddyd CS4 "Cadw NHP mewn Silindrau a Chynwysyddion Tebyg", fel y bo'n addas.

13.2 Lle y ceir cyflenwadau mesuredig o danc storio cyffredin NHP, yna mae Nodyn Cyfarwyddyd CS11 "Y Storio a'r Defnydd o NHP ar Ystadau â Mesurydd" yn rhoi cyfarwyddyd pellach. Yn yr achos hwn a lle bo cyflenwad o brif bibell Nwy Prydain ar gael, yna gall Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnydd) 1994 a Deddf Llinellau Pibell 1962 fel y diwygiwyd.

13.3 Ni ddylai poteli nwy neu silindrau sydd yn y golwg fod o fewn y ffin sy'n gwahanu uned gyfagos.

13.4 Dylai sefydliadau NHP gydymffurfio â Safon Prydain 5482 "Y Gofynion Cydnabyddedig parthed gosodiadau llosgi nwyon biwtân a phropan, Rhan 2: Gosodiadau 1977 mewn carafanau ac anheddau nad ydynt yn barhaol".

13.5 Ar gyfer cyflenwad prif bibell nwy, bydd Rheoliadau 1994 yn berthnasol ar gyfer gosod unrhyw bibell(au) gwasanaethu i lawr afon yn cyflenwi unrhyw brif fesurydd(ion) ac mae'r pibellau gwasanaethu hynny yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Diogelwch Nwy 1972 (fel y diwygiwyd).

13.6 Mewn achosion pan fo perchennog y safle yn cyflenwi nwy i garafannau ar y safle, gallasai fod angen awdurdod i wneud hynny gan OFGAS dan Ddeddf Nwy 1986.

## 14.0 GOSODIADAU TRYDAN

14.1 Dylai safleoedd ddarparu cyflenwad trydan digonol ymhob agwedd i gyrraedd holl ofynion rhesymol y carafanau a leolir arnynt.

14.2 Ac eithrio gweithiau a chylchedau'r (circuits) Bwrdd Trydan sy'n ddarostyngedig i reoliadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 16 o'r Ddeddf Ynni 1983, Deddf Trydan 1989, dylid gosod, profi a chynnal y gosodiadau trydan yn unol â gofynion Rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol (SPT) ar gyfer Gosodiadau Trydan mewn grym ar y pryd, a lle bo'n briodol, i safon y gellir ei derbyn i bwrpas y Rheoliadau Trydan (Llinellau Uwchddaear) 1988, Offerynnau Statudol 1988 Rhif 1057 (fel y diwygiwyd 1994) neu unrhyw ddiwygiadau pellach.

15.3 Ni ddylid gwneud unrhyw waith ar osodiadau trydan ac offer trydan ond gan bersonau cymwys megis asiant penodedig y gwneuthurwr, trydanwr proffesiynol, aelod o Gymdeithas y Contractwyr Trydanol, contractwr cymeradwy gan Gyngor Arolygu Cenedlaethol y Contractwyr Gosod Trydan, neu berson cymwys yn gweithio dros un o'r uchod.

14.4 Dylid archwilio'r gosodiadau yn rheolaidd: o dan Reoliadau Gwifrau'r SPT, bob blwyddyn neu gyfnodau hwy (ddim rhagor na 3 blynedd) fel y ystyrir yn addas ymhob achos.

14.5 Pan archwiliwr gosodiad dylid ei feirniadu o safbwynt y rheoliadau cyfredol.

14.6 Dylai'r arolygwr, o fewn 1 mis i archwiliad o'r fath, roi tystysgrif archwiliad yn y ffurf a nodir yn Rheoliadau Gwifrau'r SPT, a dylai rheolwr y safle ei gadw a'i arddangos gan ychwanegu ato neu ei newid a thystysgrifau dilynol - gyda thrwydded y safle.

14.7 Dylai cost yr archwiliad gael ei gwrdd gan weithredwr y safle neu ddeilydd y drwydded.

14.8 Os dengys archwiliad nad yw gosodiad bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau a fodolai pan osodwyd ef gyntaf, dylid cywiro unrhyw ddiffygion.

14.9 Dylai unrhyw brif newidiadau ac estyniadau i osodiad a holl rannau'r un gwreiddiol yr effeithir arnynt gan y newidiadau a'r estyniadau hynny gydymffurfio ar fersiwn diweddaraf o Reoliadau Gwifrau'r SPT.

14.10 Os oes llinellau trydan uwchddaear ar y safle, dylid arddangos rhybuddion addas wrth fynedfa'r safle ac ar y canllawiau sydd i'r llinellau hynny.

14.11 Lle bo'n briodol, dylid tynnu sylw arbennig ar y perygl i hwylbrenni iotiau neu gychod dingi gyffwrdd a'r llinell.

**15.0 CYFLENWAD DWR**

15.1 Dylid sicrhau cyflenwad dŵr ymhob safle yn unol ag Is-ddeddfau Dwr a'r Safonau statudol parthed ei ansawdd.

**16.0 TRAENIAD, GLENDID A CHYFLEUSTERAU YMOLCHI**

16.1 Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer carthffosiaeth, naill ai drwy gysylltu carthffos gyhoeddus neu drwy arllwys y carthion i danc trin neu garthbwll priodol a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol.

16.2 Dylid darparu arllwysfan bwrpasol ar gyfer carthion y toiledau cemegol, gyda chyflenwad digonol o ddwr i lanhau'r cynwysyddion.

16.3 Ar gyfer carafanau heb gyflenwad dwr neu doiledau, dylid darparu blociau toiled cyfunol a chyflenwad digonol o ddwr ar o leiaf y graddfeydd canlynol:-

a. Dynion: 1 Closed Dŵr ac 1 cafn i bob 15 carafan
b. Merched: 2 Closed Dŵr i bob 15 carafan
c. 1 basn ymolchi ar gyfer pob Closed Dwr neu grwp o Glosedau Dwr
d. 1 gawod neu faddon yr un (â dwr poeth ac oer) ar gyfer dynion a merched i bob 20 carafan

16.4 Dylid lleoli'r blociau toiled mewn lle cyfleus fel y gall pob defnyddiwr ar y safle fynd atynt yn hwylus trwy gyfrwng ffordd neu lwybr.

**17.0 CAEL GWARED ÂG YSBWRIEL**

17.1 Dylai pob arhosfan carafan gael nifer digonol o finiau ysbwriel anhylosg naill ai a chaead sy'n cau'n dynn neu fagiau plastig.

17.2 Dylid gwneud trefniadau i gael gwagio'r biniau yn rheolaidd.

17.3 Lle darperir biniau ar gyfer y safle'n gyffredinol dylai'r rhain fod o wneuthuriad tebyg ac wedi eu lleoli o fewn storfa ysbwriel pwrpasol.

**18.0 PARCIO**

18.1 Un car yn unig a gaiff barcio rhwng carafanau cyfagos ar yr amod na fydd yn rhwystro mynedfa i ddrws y garafan.

18.2 Dylid darparu lleoedd parcio wedi eu harwynebu'n addas i gyrraedd gofynion ychwanegol y defnyddwyr a'u hymwelwyr.

18.3 Ni ddylid parcio cychod plastig neu bren rhwng unedau.

## 19.0 LLE CHWARAE

19.1 Lle bo plant yn aros ar y safle, dylid neilltuo llecyn oddeutu un rhan o ddeg o gyfanswm yr arwynebedd ar gyfer chwaraeon plant ac/neu i amcanion adloniadol eraill.

19.2 Bydd y ddarpariaeth hon fel arfer yn angenrheidiol oherwydd y lle cyfyngedig o gwmpas y carafannau, ond gellir ei hepgor pan fo cyfleusterau hamdden gyhoeddus o fewn cyrraedd.

## 20.0 RHYBUDDION

20.1 Dylid arddangos arwydd addas mewn lle amlwg wrth fynedfa'r safle yn nodi enw'r safle.

20.2 Dylid arddangos copi o'r drwydded a'i hamodau mewn lle amlwg ar y safle.

20.3 Dylid arddangos rhybuddion a chynllun ar y safle yn dangos pa fodd i weithredu pe byddai argyfwng.

Dylent ddangos lle y gellir:

a. cysylltu â’r heddlu,
b. y frigâd dan,
c. ambiwlans a
d. meddygon lleol,
e. ynghyd â lleoliad y blwch ffon gyhoeddus agosaf.

20.4 Dylai'r rhybudd hefyd roddi enw a lleoliad / Rhif ffôn y trwyddedai neu ei gynrychiolydd awdurdodedig.

20.5 Ar safleoedd sy'n dueddol i gael llifogydd, dylid arddangos rhybuddion sy'n rhoi cyfarwyddyd am y system rybudd rhag llifogydd.

20.6 Dylid diogelu pob rhybudd rhag y tywydd a'i arddangos os yn bosibl allan o lygad yr haul, ac o ddewis mewn mannau wedi eu goleuo a golau artiffisial.

T022312 0012957 013

## APPENDIX 1

### Holiday caravan layouts




